**Cyngor Sir CEREDIGION**

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu** |
| **DYDDIAD:** | **11/09/2023** |
| **LLEOLIAD:** | **Siambr y Cyngor** |
| **TEITL:** | **Offeryn Asesiad Effaith Integredig diwygiedig.** |
| **DIBEN YR ADRODDIAD:** | **Cyflwyno'r offeryn Asesiad Effaith Integredig diwygiedig ar gyfer craffu** |
| **Y RHESWM PAM FOD Y PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM YR WYBODAETH:** | **Er mwyn sicrhau bod gan y Cyngor ddull effeithiol o asesu effaith polisïau, strategaethau neu wasanaethau newydd neu ddiwygiedig.** |

**CEFNDIR:**

Mae offeryn Asesiad Effaith Integredig Cyngor Sir Ceredigion wedi'i gynllunio i helpu swyddogion ac aelodau etholedig i ystyried effaith polisi, strategaeth neu wasanaeth newydd neu ddiwygiedig.

Mae'n asesiad integredig sy'n galluogi swyddogion y Cyngor ac aelodau etholedig i wirio bod ein penderfyniadau yn cyd-fynd ag Amcanion Llesiant Corfforaethol y Cyngor, yn cydymffurfio â Mesur y Gymraeg 2011 a Deddf Cydraddoldeb 2010, gan gynnwys ein dyletswydd economaidd-gymdeithasol, ac yn cyfrannu at Nodau Llesiant Cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2014. Mae'r offeryn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i swyddogion y Cyngor ystyried a ydynt wedi cynllunio eu cynnig yn unol â'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy ac wedi rheoli unrhyw risg sy'n gysylltiedig â'r penderfyniad.

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, sy'n rhan o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, yn gosod gofynion ychwanegol ar awdurdodau cyhoeddus. Rhaid i Gyngor Sir Ceredigion feddwl hefyd am yr angen i **ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon**, **hyrwyddo cyfle cyfartal** rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt, ac **annog cysylltiadau da** rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt. Ymdrinnir â'r gofynion hyn yn yr adran 'Nod Llesiant Cenedlaethol: Cymru fwy cyfartal' yn y templed.

**Y SEFYLLFA BRESENNOL:**

Dyluniwyd yr offeryn presennol dros bum mlynedd yn ôl ac mae wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu newidiadau mewn deddfwriaeth.

Mae fformat yr offeryn yn parhau. Mae canllawiau ac awgrymiadau wedi'u hymgorffori yn yr offeryn diwygiedig i helpu pobl sy'n ei gwblhau; gellir diweddaru'r rhain wrth i dystiolaeth a data newydd ddod i'r amlwg.

Mae swyddogion Cydraddoldeb a Chynhwysiant yn cynnig cyngor un wrth un i swyddogion y Cyngor sy'n cwblhau templed yr AEI. Bydd y rhain yn parhau ond bydd sesiynau grŵp yn cael eu treialu i helpu i wella ansawdd yr Asesiadau Effaith Integredig a gyflwynir i'r Cabinet i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau strategol.

| | | |
|---|---|---|
| **LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:** | **A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, nodwch pam**<br><br>***Crynodeb:***<br>**Hirdymor:**<br>**Integreiddio:**<br>**Cydweithio:**<br>**Cynnwys:**<br>**Atal:** | Naddo, nid yw hwn yn newid sylweddol a fydd yn effeithio ar drigolion Ceredigion. |

**ARGYMHELLION:**

**Darparu adborth ar yr offeryn AEI diwygiedig ac argymell ei fod yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet i'w gymeradwyo.**

**Argymell i'r Cabinet y dylid trefnu gweithdy i aelodau etholedig i egluro'r offeryn a'i bwysigrwydd yn y broses o wneud penderfyniadau.**

**Y RHESWM DROS YR ARGYMHELLION:**

**Er mwyn i'r pwyllgor craffu allu rhoi mewnbwn i ddatblygiad yr offeryn AEI diwygiedig a hyfforddiant arno yn y dyfodol.**

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Cathryn Morgan |
| **Swydd:** | Swyddog Cydraddoldeb a Chynhwysiant |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | 25/07/2023 |
| **Acronymau:** | AEI – Asesiad Effaith Integredig |